

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymdrin â sylweddau a all fod yn beryglus fel cemegau pwll a chyfryngau glanhau gaiff eu defnyddio mewn gweithrediadau peirianwaith pwll. Mae'n cynnwys cludo, trin, defnyddio, storio a chael gwared ar sylweddau sy'n beryglus i iechyd.

Mae'r safon hon wedi'i bwriadu ar gyfer unrhyw un sydd, fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd, yn defnyddio, storio ac yn symud sylwedd sydd wedi'i ystyried yn sylwedd sy'n beryglus i iechyd.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. cludo a thrin sylweddau sy'n beryglus i iechyd
2. defnydd diogel o sylweddau sy'n beryglus i iechyd
3. storio a chael gwared ar sylweddau sy'n beryglus i iechyd

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cludo a thrin sylweddau sy'n beryglus i iechyd

1. adnabod sylweddau peryglus ac asesu'r risg sydd ynghlwm wrth eu cludo a'u trin
2. defnyddio **cyfarpar diogelu personol** sy'n addas i'r sylwedd rydych chi'n ei gludo, ei drin a'i ddefnyddio
3. defnyddio cyfarpar cludo a thrin sy'n ddiogel ac yn sicr
4. ymdrin ag unrhyw orlifoedd a halogiad i'ch hun neu i bobl eraill trwy ddilyn dulliau gweithredu mewn argyfwng cyfundrefnol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a gofynion cyfreithiol
5. rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu broblemau trwy ddilyn dulliau gweithredu cyfundrefnol

Defnydd diogel o sylweddau sy'n beryglus i iechyd

* *

6. osgoi cyffwrdd â sylweddau yn uniongyrchol trwy ddefnyddio cymhorthion, offer a chyfarpar mecanyddol
7. defnyddio sylweddau neu gemegau anghydnaws mewn modd sy'n sicrhau nad ydyn nhw'n cyffwrdd â'i gilydd
8. ychwanegu cemegau at ddŵr wrth wanhau
9. gwirio bod arwyddion, labeli a rhybuddion sy'n gysylltiedig ag **ardal y peirianwaith pwll** yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol a chyfundrefnol

* *

Storio a chael gwared ar sylweddau sy'n beryglus i iechyd

* *

10. storio cemegau hylifol mewn ardal fwnd ar wahân (*bunding area*)

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

11. defnyddio storfeydd ar wahân gyda labeli ar gyfer cemegau a sylweddau
12. dychwelyd cemegau pur (*uncontaminated*) i'r storfa gywir yn syth ar ôl eu defnyddio
13. storio cemegau yn eu blychau penodol a storio sylweddau anghydnaws ar wahân
14. cael gwared ar flychau gwag neu dreuliedig gan ddilyn dulliau gweithredu cyfundrefnol
15. adnabod unrhyw wastraff a sylweddau sy'n hŷn na'u dyddiad terfyn a dilyn gofynion cyfreithiol ar sut i gael gwared â nhw
16. adnabod a rhoi gwybod am unrhyw **broblemau** yn y storfa
17. ymdrin ag unrhyw **broblemau** sy'n dod o dan eich cyfrifoldebau chi trwy ddilyn dulliau gweithredu mewn argyfwng cyfundrefnol a gofynion cyfreithiol
18. dilyn dulliau gweithredu er mwyn cael gwared ar flychau gweigion
19. diweddarau'r cofnodion storio gan ddilyn gofynion cyfundrefnol
20. diogelu a chau'r storfa yn dynn pan na fydd unrhyw un yno

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cludo a thrin sylweddau sy'n beryglus i iechyd

1. eich cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a Rheoli Sylwedd sy'n Beryglus i Iechyd fel sydd wedi'i ddiffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch swydd

2. sut i adnabod gwahanol fathau o sylweddau peryglus
3. y cytundebau ysgrifenedig a chyfreithiol sydd gan eich sefydliad gyda chyflenwyr ar gyfer dosbarthu llwythi a chyfrifoldebau'r naill a'r llall gan gynnwys gyda mynediad a dadlwytho
4. y **peryglon** neilltuol sy'n gysylltiedig â chludo a thrin sylweddau peryglus
5. y math o **ddillad amddiffynnol a chyfarpar diogelu eraill** sydd eu hangen er mwyn ymdrin â gwahanol sylweddau peryglus
6. sut i ymdrin â gorlifoedd a halogiad sylweddau peryglus
7. pa fath o broblemau y mae angen rhoi gwybod amdany'n nhw i berson cyfrifol
8. sut i gwblhau adroddiad digwyddiadau

* *

Defnydd diogel o sylweddau sy'n beryglus i iechyd

* *

9. y cymhorthion, offer a chyfarpar mecanyddol gaiff eu defnyddio i osgoi cyffwrdd ag unrhyw sylweddau peryglus yn uniongyrchol
10. beth ydy'r canlyniad o sylweddau a chemegau anghydnaws yn cyffwrdd â'i gilydd a'r camau angenrheidiol er mwyn atal hyn
11. sut i ddiogelu sylweddau peryglus wrth eu defnyddio
12. rheswm pam gaiff cemegau eu hychwanegu at ddŵr wrth wanhau
13. y prif ofynion wrth ddosio cemegau

14. yr arwyddion sydd eu hangen er mwyn defnyddio sylweddau peryglus yn ardal y peirianwaith pwll

Storio a chael gwared ar sylweddau sy'n beryglus i iechyd

15. gofynion storio hylif a chemegau sych ar wahân
16. pam ei bod hi'n bwysig storio sylweddau peryglus yn syth ar ôl eu defnyddio
17. y **storfeydd a**r amodau storio** cywir sy'n angenrheidiol ar gyfer sylweddau peryglus
18. gofynion storio cywir ar gyfer cemegau sych
19. sut i adnabod a storio cemegau peryglus
20. pam na ddylai blychau gweigion gael eu defnyddio i unrhyw ddiben arall a pham fod angen cael gwared arnyn nhw yn unol â dulliau gweithredu cyfundrefnol
21. pam fod angen adnabod sylweddau sy'n hŷn na'u dyddiad terfyn a'r dulliau angenrheidiol i gael gwared arnyn nhw
22. problemau yn y storfa a sut i ymdrin â nhw'n effeithiol
23. beth all ddigwydd os nad ydy problemau yn y storfa yn cael eu datrys yn syth
24. storio a chadw cofnodion sy'n angenrheidiol ar gyfer sylweddau peryglus
25. rhesymau dros ddiogelu a chau storfeydd yn dynn pan na fydd unrhyw un yno

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Dillad amddiffynnol a chyfarpar diogelu arall

1. gorchuddwisg
2. offer diogelu llygaid
3. offer diogelu dwylo
4. esgidiau
5. offer anadlu

* *

Ardal y peirianwaith pwll

1. storfeydd
2. y pwll
3. ystafell beirianwaith
4. ardaloedd cael gwared ar bethau
5. ardaloedd danfon

* *

Problemau

1. blychau diffygiol
2. storfeydd diffygiol
3. arferion gweithio peryglus
4. camgymeriadau dyn
5. gorlifoedd cemegol

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Peryglon

1. nwyon gwenwynig
2. tanau
3. ffrwydradau
4. mewnanadliad
5. amlyncu

Dillad amddiffynnol a chyfarpar diogelu

1. gorchuddwisg
2. offer diogelu llygaid
3. offer diogelu dwylo
4. esgidiau
5. offer amddiffyn clustiau
6. offer anadlu
7. cyflenwr dŵr croyw
8. offer golchi llygaid

Storfeydd ac amodau storio

1. lleoliad
2. risg tân
3. gorlifoedd
4. awyru
5. tymheredd

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol canlynol yn sail i sut gaiff gwasanaethau eu darparu yn y sector chwaraeon a hamdden

1. parodrwydd i ddysgu
2. parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb
3. agwedd hyblyg at waith
4. gweithiwr tîm
5. agwedd gadarnhaol
6. gwerthoedd moesegol personol a phroffesiynol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad canlynol yn sail i sut gaiff gwasanaethau eu darparu yn y sector chwaraeon a hamdden:

1. bodloni safonau ymddygiad ac ymddangosiad y sefydliad
2. cynnal dulliau gweithio effeithiol, glân a diogel
3. glynu wrth gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr a'r gwneuthurwyr ynglŷn â defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol canlynol yn sail i sut gaiff gwasanaethau eu darparu yn y sector chwaraeon a hamdden

1. y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau a hunan-reoli
2. y gallu i gyfathrebu ar lafar a chyfathrebu'n ddieiriau
3. y gallu i ddarllen a deall cyfarwyddiadau ysgrifenedig

Geirfa

Gofynion cyfreithiol

Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd er enghraifft Cyfarpar Diogelu Personol

* *

Halogiad

Sylweddau peryglus yn mynd ar ddillad a neu rannau o'r corff a neu sylweddau yn mynd i'r amgylchedd

Person cyfrifol

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Yr aelod o staff sy'n gyfrifol am sylweddau peryglus yn y gweithle

Sylweddau peryglus

Unrhyw sylweddau sydd wedi'u rhestru trwy reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i iechyd

Ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd mewn pyllau nofio

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2021
Dilysrwydd	Etifeddiaeth
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	Etifeddiaeth
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt, Gweithredwr Peirianwaith Pwll, Gweithredwr Sba
Cyfres/Set	Gweithrediadau Peirianwaith Pwll
Geiriau Allweddol	ymdrin; sylweddau; peryglus; iechyd; peirianwaith pwll;